Hydref 2009

Crynodeb

Y Comisiwn Etholiadol

Gwneud eich marc

Cyfarwyddyd dylunio ar gyfer deunyddiau i bleidleiswyr

Nod cyfarwyddyd dylunio *Gwneud eich marc* y Comisiwn Etholiadol yw gwneud deunyddiau i bleidleiswyr yn fwy defnyddiadwy a hygyrch, er mwyn i bleidleiswyr 'wneud eu marc' yn hawdd, a bod yn ffyddiog y caiff eu pleidlais ei chyfrif yn ôl eu bwriad.

Bwriedir y cyfarwyddyd i weinyddwyr etholiadol a llunwyr polisi llywodraeth.

Cefndir

Rydym wedi nodi amryw faterion sy'n gysylltiedig â phapurau pleidleisio yn ein hadroddiadau am etholiadau a gynhaliwyd yn y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys Gogledd Iwerddon yn 2005, a Chymru yn 2007, ac wedi gwneud argymhellion ar sut y gellid eu gwella. Rydym hefyd wedi gwneud argymhellion mewn cyhoeddiadau eraill, gan gynnwys *Ballot paper design*[1] ac *Equal access to democracy*.[2] Mae nifer o'r argymhellion yn yr adroddiadau hyn bellach wedi'u hymgorffori mewn deddfwriaeth.

Amlygwyd mater dylunio papurau pleidleisio ar ôl etholiadau lleol a Senedd yr Alban yn 2007, pan wrthodwyd nifer gymharol uchel o bapurau pleidleisio. Roedd adroddiad Ron Gould am yr etholiadau hynny'n argymell amrywiaeth o gamau mewn perthynas â phapurau pleidleisio, a oedd yn anelu at leihau'r posibilrwydd o ddrysu neu gamarwain pleidleiswyr. Mewn ymateb i'r adroddiad hwnnw, dywedasom y byddem yn datblygu cyfres o safonau DU-gyfan yn rhoi sylw i hygyrchedd, dyluniad a defnyddioldeb papurau pleidleisio a phapurau cysylltiedig. Mae cyfarwyddyd *Gwneud eich marc* yn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw.

Cwmpas

Mae'r cyfarwyddyd yn cynnwys y deunyddiau canlynol:

- papurau pleidleisio
- hysbysiadau cyfarwyddyd i bleidleiswyr mewn gorsafoedd pleidleisio
- cyfarwyddiadau i bleidleiswyr mewn bythau pleidleisio
- datganiadau pleidleisio drwy'r post a datganiadau ynghylch pwy ydych
- cyfarwyddyd atodol pleidleisio drwy'r post

Gellir cymhwyso llawer o'r egwyddorion cyffredinol yn y cyfarwyddyd hefyd i ddeunyddiau etholiadol eraill, er enghraifft ffurflenni cofrestru a chardiau pleidleisio. Mae dylunio'r deunyddiau hyn yn cael sylw yn ein cyfarwyddyd presennol, gan gynnwys *Modernising electoral forms* (2005),[3] a *Managing electoral registration in Great Britain, Part I* (2008).[4]

Mae *Gwneud eich marc* yn canolbwyntio ar hyrwyddo arfer da wrth ddylunio. Nid yw'n mynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â gweinyddu etholiadau, fel dulliau trefnu

1 *Ballot paper design,* Y Comisiwn Etholiadol (2003). Ar gael yn www.electoralcommission.org.uk/document-summary?assetid=16056

2 *Equal access to democracy,* Y Comisiwn Etholiadol (2003). Ar gael yn www.electoralcommission.org.uk/document-summary?assetid=16051

3 *Modernising electoral forms,* Y Comisiwn Etholiadol (2005). Ar gael yn www.electoralcommission.org.uk/document-summary?assetid=79881

4 *Managing electoral registration in Great Britain, Part I,* Y Comisiwn Etholiadol (2008). Ar gael yn www.electoralcommission.org.uk/document-summary?assetid=43961

ymgeiswyr a phleidiau ar bapurau pleidleisio, na manteision gwahanol systemau pleidleisio. Mae'r arfer da yn y cyfarwyddyd yn berthnasol ni waeth pa system bleidleisio neu ddull trefnu a ddefnyddir.

Nid yw'r cyfarwyddyd hwn yn cynnwys materion mynediad ffisegol i orsafoedd pleidleisio, na rhoi gwybodaeth i bleidleiswyr mewn fformatau amgen. Mae gofynion statudol presennol i Swyddogion Canlyniadau mewn perthynas â hygyrchedd etholiadol, ac er dylai'r cyfarwyddyd hwn gyflenwi'r gofynion hynny, nid yw'n eu hamnewid na'u diwygio.

Ymagwedd

Mae ein cyfarwyddyd yn canolbwyntio ar roi blaenoriaeth i anghenion pleidleiswyr, ac rydym wedi dilyn yr egwyddor honno yn ein hymagwedd at ei gynhyrchu. Aethom ati i gynnal ymchwil ansoddol gydag etholwyr ledled y DU ar ffurf grwpiau ffocws a chyfweliadau defnyddioldeb un ac un, i archwilio dyluniad deunyddiau presennol i bleidleiswyr.[5] Buom hefyd yn adolygu deunyddiau presennol gyda gweithwyr proffesiynol o'r gymuned etholiadol, ac o feysydd hygyrchedd a defnyddioldeb. Yn sgil yr ymchwil hwn, roeddem yn gallu deall yn well yr hyn sy'n gwneud deunyddiau i bleidleiswyr yn haws neu'n anoddach eu defnyddio, yn ogystal â nodi arfer da i'w rannu.[6]

Mae'r cyfarwyddyd yn hyrwyddo arfer da mewn dylunio, yn seiliedig ar arfer da a dderbynnir yn y diwydiant a chanfyddiadau ein hymchwil. Nid yw'n nodi'r dyluniad 'gorau' ar gyfer gwahanol ddeunyddiau. Y rheini sy'n dylunio ffurflenni rhagnodedig sy'n cael eu cynnwys mewn deddfwriaeth, a Swyddogion Canlyniadau sy'n cynhyrchu'r deunyddiau hynny'n ymarferol, sy'n gyfrifol am benderfyniadau am ddylunio.

Prawf defnyddwyr

Yr unig ffordd o ganfod yn briodol a yw dyluniad arbennig yn ddefnyddiadwy yw ei brofi ar ddefnyddwyr, a dylid gwneud hyn cyn penderfynu ei ddefnyddio mewn sefyllfa go iawn. Cyn i lywodraethau gynnig unrhyw ddyluniadau newydd ar gyfer ffurflenni rhagnodedig mewn deddfwriaeth ddrafft, argymhellwn eu bod yn cynnal prawf defnyddwyr arnynt.

Y cyfarwyddyd

Nid oes unrhyw ateb hawdd i'r her o ddylunio deunyddiau i bleidleiswyr. Mae papurau pleidleisio a deunyddiau eraill i bleidleiswyr a ddefnyddir yn etholiadau'r DU yn cael eu rhagnodi'n benodol iawn, ac felly prin iawn yw'r cyfle i Swyddogion Canlyniadau newid golwg y deunyddiau. Felly, mae dwy fersiwn o'r cyfarwyddyd.

Cyfarwyddyd i lunwyr polisi llywodraeth

Mae'r cyfarwyddyd i lunwyr polisi llywodraeth a'r rheini sy'n drafftio deddfwriaeth yn adlewyrchu'r hyn sy'n 'ddymunol' o ran dylunio deunyddiau i bleidleiswyr, ac mae'n nodi newidiadau y gellid eu gwneud i ddeunyddiau a ragnodir i'w gwneud yn fwy defnyddiadwy a hygyrch. Crynhoir y rhain ar y dudalen nesaf.

Cyfarwyddyd i weinyddwyr etholiadol

Mae'r cyfarwyddyd hwn i weinyddwyr etholiadol ei ddefnyddio yn awr, gan dderbyn cyfyngiadau a gofynion deddfwriaethol presennol.[7] Mae'n cynnwys deunyddiau enghreifftiol i ddangos sut y gellir cymhwyso'r cyfarwyddyd i ddeunyddiau presennol i bleidleiswyr, a gobeithiwn y bydd gweinyddwyr etholiadol yn dechrau defnyddio'r cyfarwyddyd cyn gynted â phosibl.

Y dyfodol

Er bod y cyfarwyddyd hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar alluogi pleidleiswyr i bleidleisio'n ffyddiog ac yn gywir, dylai hefyd helpu i:

- gyflawni cysondeb dylunio mewn deunyddiau i bleidleiswyr, ni waeth pryd nac ymhle mae rhywun yn pleidleisio
- rhoi cyfarwyddyd a meini prawf clir i Swyddogion Canlyniadau eu hystyried wrth ddylunio deunyddiau a dewis a rheoli eu cyflenwyr
- annog newidiadau mewn cyfraith a pholisi etholiadol i sicrhau bod deunyddiau i bleidleiswyr yn ddefnyddiadwy ac yn hygyrch
- llywio penderfyniadau dylunio gan lywodraethau wrth ddrafftio deddfwriaeth newydd a'n helpu i ymateb i ymgynghoriadau ar ddyluniadau newydd arfaethedig.

5 Roedd ymatebwyr yr ymchwil i gyd yn gymwys i bleidleisio mewn o leiaf un math o etholiad yn y DU, ac yn cynnwys y rheini nad oeddent wedi pleidleisio erioed.

6 Mae adroddiadau'r ymchwil ar gael yn adran ymchwil ein gwefan yn www.electoralcommission.org.uk/publications-and-research/policy-and-research

7 Adeg cyhoeddi.

Bwriadwn ddefnyddio'r cyfarwyddyd yn sail i bwyso am welliannau i ddylunio deunyddiau i bleidleiswyr, er mwyn rhoi anghenion pleidleiswyr, dros amser, wrth wraidd y broses ddylunio. Byddwn yn annog gweinyddwyr etholiadol i ddefnyddio'r cyfarwyddyd, drwy ein fframwaith safonau perfformiad i Swyddogion Canlyniadau ym Mhrydain Fawr, a thrwy ein deunyddiau cyfarwyddyd etholiadau.

Adborth

Rydym yn croesawu adborth ar y cyfarwyddyd ac unrhyw awgrymiadau ar sut y gellid ei wella. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau, cysylltwch â Christie Dennehy, Uwch Gynghorwr Polisi, yn **cdennehy@electoralcommission.org.uk**

Argymhellion allweddol

Mae ein cyfarwyddyd i lywodraethau'n argymell newidiadau i ddeunyddiau rhagnodedig presennol i bleidleiswyr y byddai angen newid deddfwriaeth er mwyn iddynt ddod i rym.

Crynhoir yma'r newidiadau dylunio allweddol a argymhellwn i lywodraethau eu hystyried. Mae manylion llawn, gan gynnwys y sail resymegol, yn y cyfarwyddyd ei hun.

Deunydd	Argymhelliad
Popeth	Defnyddiwch iaith glir
Papur pleidleisio[8]	Dylid cynnwys cyfarwyddiadau pleidleisio penodol, clir a diagram (sy'n dangos sut ac ymhle i farcio eich pleidlais ar y papur pleidleisio) ar frig y papur pleidleisio
	Ni ddylai 'grid' rannu papurau pleidleisio yn adrannau. Dylent gynnwys: • manylion pob plaid/ymgeisydd ar res ar wahân, wedi'u gwahanu â llinell lorweddol • blwch pleidleisio amlwg ar yr ochr dde ar ddiwedd pob rhes
	Peidiwch ag arddangos cyfeiriadau ymgeiswyr mewn cystadlaethau pob ymgeisydd
	Peidiwch ag arddangos y rhestr (h.y. enwau unigol) ymgeiswyr plaid gofrestredig mewn cystadlaethau rhestr plaid
	Os yw ymgeiswyr yn sefyll ar ran plaid gofrestredig, neu mewn cystadlaethau plaid, mynnwch fod enw'r blaid yn cael ei arddangos ar y papur pleidleisio
	Dylai fod dewis i ddisgrifiad o'r blaid gofrestredig ymddangos ar y papur pleidleisio yn ogystal ag enw'r blaid gofrestredig, ond ar ei ôl
	Dylai fod ymgeiswyr annibynnol yn gallu cynnwys gwybodaeth ar y papur pleidleisio sy'n gywerth â'r wybodaeth y caniateir i bleidiau cofrestredig neu eu hymgeiswyr ei chynnwys

8 **Sylwer:** nid yw unrhyw argymhelliad i beidio ag arddangos gwybodaeth arbennig ar bapurau pleidleisio sy'n cael ei harddangos ar hyn o bryd, yn golygu argymhelliad na ddylai pleidleiswyr weld y wybodaeth honno, ond yn hytrach nad oes angen iddi fod ar y papur pleidleisio ei hun.

Deunydd	Argymhelliad
Hysbysiad gorsaf bleidleisio	Dylech gynnwys teitl yr etholiad ar yr hysbysiad gorsaf bleidleisio
	Caniatewch ddefnyddio lliw a darluniau
	Diwygiwch y cynnwys i gynnwys dim ond y wybodaeth sydd ei hangen ar y pleidleisiwr cyn iddo gyrraedd y bwth pleidleisio: • ble i gael ei bapur pleidleisio • beth i'w wneud nesaf • beth i'w wneud os bydd angen cymorth arno
Hysbysiad bwth pleidleisio	Dylech gynnwys teitl yr etholiad ar yr hysbysiad bwth
	Diwygiwch y cynnwys er mwyn cynnwys y wybodaeth sydd ei hangen ar y pleidleisiwr yn y bwth pleidleisio, ac yn syth wedyn: • y system bleidleisio a ddefnyddir • sut i farcio ei bleidlais ar y papur pleidleisio • beth i'w wneud nesaf • beth i'w wneud os bydd angen cymorth arno
	Caniatewch ddefnyddio lliw a darluniau
Deunyddiau pleidleisio drwy'r post	Dylech gynnwys teitl yr etholiad ac enw'r ddogfen ar y datganiad pleidleisio drwy'r post/datganiad ynghylch pwy ydych
	Diwygiwch y cynnwys er mwyn cynnwys dim ond y wybodaeth sydd ei hangen ar y pleidleisiwr am y broses pleidleisio drwy'r post: • sut i lenwi ei ddatganiad pleidleisio drwy'r post/datganiad ynghylch pwy ydych • sut i ddychwelyd ei bleidlais bost • y terfyn amser ar gyfer ei dychwelyd • beth i'w wneud os bydd angen cymorth arno
	Ailddrefnwch y cyfarwyddiadau fel eu bod yn digwydd mewn trefn resymegol, yn dilyn y broses bleidleisio drwy'r post, a'u bod wedi'u gosod yn y man lle bydd eu hangen ar y pleidleisiwr
	Cyhoeddwch gyfarwyddyd ar wahân i bleidleiswyr drwy'r post, gan gynnwys gwybodaeth am y system bleidleisio a ddefnyddir a sut i farcio'r papur pleidleisio

Diolch

Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a'n cynorthwyodd i gynhyrchu'r cyfarwyddyd hwn, gan gynnwys pawb a roes enghreifftiau o ddeunyddiau pleidleiswyr i'w defnyddio yn y gwaith adolygu ac ymchwil. Hoffem ddiolch hefyd i'r bobl ganlynol a gyfrannodd yn hael o'u hamser, eu cyngor a'u harbenigedd.

- Aelodau AEA
- Aileen Knudsen, South Lanarkshire Council
- Andrea Stephenson, Scottish Conservative and Unionist Party
- Andy Sinclair, Scottish Government
- Billy Pollock, Cadeirydd, cangen AEA yr Alban a Gogledd Iwerddon
- Claire Mitchell, Flow Interactive Ltd
- Derek Todd, Scottish Council on Deafness
- Douglas Bain, Prif Swyddog Etholiadol, Electoral Office for Northern Ireland (EONI)
- Dr. Tess Millar, Text Matters
- Elaine Clark, Scottish Conservative and Unionist Party
- Faye Gatenby, Capability Scotland
- Forms Working Group, yr Alban
- Gareth Evans, Denbighshire County Council
- Gerred Blyth, Lighthouse Experience
- Glynne Morgan, Pembrokshire County Council
- Gordon Blair, SOLAR
- Gozie Joe Adigwe, RNIB Scotland
- Gwilym Morris, Pollenshop
- Ian Adderley, British Youth Council
- Ian Baxter, Scottish Green Party
- Ian McCann, Scottish National Party
- Ianto Brychan, Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- Ivanka Majic, LBi
- Jason Kitcat, ar ran Open Rights Group
- John Foster, Print Image Network
- Julianne Marriott, RNIB
- June Butler, EONI
- Karen McGrath, Disability Action
- Kate McCluskey, Serco Usability Services
- Lilian Lawson, Scottish Council on Deafness
- Mary Pitcaithly, SOLACE
- Miriam Haywood, RNIB
- Nigel Spilsbury, Plymouth City Council
- Scottish Interim Elections Management Board
- Scottish Parliamentary Parties Panel
- Pat Parker, London Elects
- Rhoda Meek, Outside the Box
- Ruth Thornton, Plain Language Commission
- Sheila Scobie, Swyddfa yr Alban
- Simon Verdon, dsicmmgroup
- Victoria Walsh, Rethink

Rydym yn gorff annibynnol a sefydlwyd gan Senedd y DU. Ein nod yw hygrededd y broses ddemocrataidd a hyder y cyhoedd ynddi. Rydym yn rheoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau ac yn gosod safonau ar gyfer etholiadau a gynhelir yn dda. Am ragor o wybodaeth gweler: **www.comisiwnetholiadol.org.uk**

Y Comisiwn Etholiadol